# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 8 Chwefror 2007
### Amser: 9.30am
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'n bresennol:

William Graham, AC Ceidwadwyr (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

#### Swyddogion yn bresennol:

Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau
Andrew George, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Ariannol GSC
Nerys Evans, Rheoli Cyfleusterau

#### Ysgrifenyddiaeth:

John Grimes, Clerc Pwyllgor y Ty

#### Ymddiheuriadau :

John Marek, AC Cymru Ymlaen
Y Llywydd

| | |
|---|---|
| | **Sylwadau Agoriadol** |
| | |

| | |
|---|---|
| | Croesawodd y Cadeirydd Jon Shortridge, oedd yn bresennol fel Swyddog Cyfrifyddu, i'r cyfarfod. |
| | |
| **1** | **Cofnodion cyfarfodydd blaenorol a gweithgarwch sy'n deillio** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2007 yn cael eu cyhoeddi erbyn 1 Mawrth 2007. Nododd Janice Gregory, ar gyfer Adran 4, mai hi gododd y mater o dan 'Mynediad at yr Aelodau yn y Cwrt' ac mai Lorraine Barrett a gododd y mater ynglyn â 'Mynediad i'r Siambr'. |
| | |
| 1.2 | Gweithredu sy'n codi yn sgil cyfarfodydd blaenorol HC(2)-02-07(p1) |
| | |
| | a. Protocol ar gyfer Mynediad Ymwelwyr at Barthau Cyfyngedig y Senedd<br><br>Mynegodd yr Aelodau bryder fod rhai aelodau'n dal i beidio â dilyn y protocol a bod yr heddlu wedi rhybuddio bod goblygiadau diogelwch i hyn. Cytunwyd y dylid atgoffa'r aelodau am hyn eto ac y dylid rhwystro mynediad yr Aelodau i'r Siambr drwy'r drefn gardiau rhwng 12.00 a 1.45 ar y diwrnodiau hynny pan gynhelir cyfarfod llawn. Pe bai angen i Aelod fynd i'r Siambr, gellid trefnu hyn gyda'r staff, ond ni ddylid caniatáu mynediad i ymwelwyr. [Gweithredu: Clerc, Nerys Evans]<br><br>Trafododd yr Aelodau sancsiynau y gellid eu gosod ar y rhai sy'n parhau i dramgwyddo. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i ofyn a ellid gwneud y math yma o dramgwyddo yn fater iddynt hwy ei ystyried. [Gweithredu: Clerc]<br><br>b. Rhwystrau Ffordd ar gyfer Stryd Pierhead a Harbour Drive<br><br>Adroddodd y swyddogion fod y tendrau bellach wedi'u derbyn a bod y contract wedi'i ddyfarnu i'r ymgeisydd rhataf. Roedd y gost cryn dipyn yn is na'r amcangyfrif blaenorol.<br><br>c.Ymgyrch y Bleidlais Ddu<br><br>Nododd yr Aelodau mai mater cyffredinol oedd y mater pwysig yma a gododd mewn perthynas â materion trethi. Roedd Lorraine Barrett yn gobeithio y byddai trefnwyr YBDd yn gweithio gydag arweinwyr |

| | |
|---|---|
| | cymunedol yn ardal Caerdydd.<br><br>c. Gweithredu Diwydiannol ar 31 Ionawr 2007<br><br>Dywedodd Dianne Bevan ei bod wedi siarad â’r PCS ond nid oeddent yn fodlon ‘eithrio staff’ y Cynulliad rhag y gweithredu, a bod y gweithredu diwydiannol felly wedi effeithio ar drafodion y Cynulliad ar y diwrnod hwnnw. |
| 2.1 | Prosiect Etholiad 2007 HC(2)-02-07(p2) |
| | Nododd y pwyllgor y cynnydd da a wnaed wrth baratoi ar gyfer etholiadau 2007.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y byddai cyfleusterau ar gael i’r Aelodau gymryd y llw a derbyn gwasanaethau sylfaenol TGCh, Ffioedd a llety yn Swyddfeydd y Cynulliad rhwng 10.00 - 4.00 ar y Sadwrn a’r Sul ar ôl yr etholiad. Ni fyddai hyn ar gael ar wyl y Banc, sef dydd Llun, ond byddai deiliaid cardiau’n gallu cael mynediad fel arfer. Byddai cyfleusterau hefyd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwp, ond iddynt gael eu harchebu ymlaen llaw. Dylai’r swyddogion gyhoeddi’r trefniadau hyn ymlaen llaw i’r Aelodau. [Gweithredu: Nerys Evans} |
| 2.2 | Etholiad 2007 : Darpariaeth a Gwasanaethau TGCh HC(2)-02-07(p3)<br><br>Trafododd y Pwyllgor bapur ar yr elfen TGCh ym mhrosiect Etholiad 2007. Cefnogodd yr Aelodau’r cynigion oed yn gysylltiedig â’r ddarpariaeth TGCh yn ystod cyfnod yr etholiad ond gofynnodd am eglurhad parthed perchnogaeth y cyfarpar, yn enwedig pan oedd wedi’i gynnwys o’r blaen ar ffurflenni treth yr Aelodau. Cytunodd y swyddogion i geisio eglurhad ynghylch y sefyllfa. [Gweithredu: Steve O’Donoghue].<br><br>Nododd y Pwyllgor yr ansicrwydd ynghylch amcangyfrif y gost a dywedodd y swyddogion y deuid â phapur fyddai’n cynnwys gwybodaeth fanylach i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. [Gweithredu: Gwen Parry] |

| | |
|---|---|
| 2.3 | Trefniadau Archebu Ystafell y Cyfryngau HC(2)-02-07(p4)<br><br>Trafododd y Pwyllgor a fyddai angen mwy o arweiniad ynghylch defnyddio ystafell briffio’r cyfryngau. ‘R oeddent yn cydnabod mai anodd oedd pennu canllawiau pendant i wahaniaethu rhwng defnyddio’r Ystafell i bwrpas y ‘Cynulliad’ ( a ganiateir) ac i bwrpas ‘Gwleidyddol’ (nas caniateir) ac mai’r Aelodau yn y pen draw oedd i benderfynu. Cytunwyd na fyddai’n briodol i’r swyddogion wneud penderfyniadau o’r math. Yn y pen draw, efallai mai’r Pwyllgor Safonau fyddai’n gorfod penderfynu, pe ceid cwyn, a fu tramgwyddo yn erbyn y canllawiau.<br><br>Cytunodd yr aelodau fod y canllawiau presennol ynglyn â hyn yn ddigonol ond gofynnwyd i’r Clerc gyhoeddi atgoffyn yn eu cylch i’r Aelodau. [Gweithredu: Dianne Bevan] |
| 2.4 | Defnydd Arall o’r Ystafelloedd Bwyta Preifat HC(2)-02-07(p5) |
| | Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried ffyrdd eraill o ddefnyddio’r tair ystafell fwyta breifat ar y llawr cyntaf a chytunwyd i gael pared symudol rhwng Ystafelloedd Cynadledda C a D. |
| 2.5 | Peiriant Trosglwyddiadau Awtomataidd (Eitem lafar)<br><br>Cadarnhaodd y Pwyllgor ei bod hi’n hanfodol bod ATM ar gael i’r aelodau ond cydnabuwyd y byddai anawsterau diogelwch yn codi pe gosodid un yn yr Atrium. Roeddent yn fodlon i’r swyddogion drafod lleoliad ym Mwyty’r Staff. [Gweithredu: Nerys Evans] |
| 2.6 | Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Reoli Absenoldeb oherwydd Salwch HC(2)-02-07(p6)<br><br>Cytunodd y Pwyllgor yr ymateb drafft i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio. |
| 2.7 | Adroddiad Cyllideb GSC HC(2)-02-07(p7)<br><br>Rhoddwyd trosolwg i’r Pwyllgor o’r gwariant mewn blwyddyn hyd at ddiwedd Rhagfyr o’i gymharu â chyllidebau’r flwyddyn ariannol ar gyfer 2006-07. Cytunodd yr Aelodau’r cynnydd yng Nghyllideb 2006/7 y Prif Grwpiau Gwariant a chytuno hefyd i dynnu i lawr £1.848m o’r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn cronedig. |

| | |
|---|---|
| 2.8 | Trosglwyddiadau Cyllideb 2006/07 HC(2)-02-07(p8)<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y cynigion ar gyfer trosglwyddiadau o fewn cyllideb GSC 2006/07 fel y'u nodwyd yn y papur. |
| 2.9 | Is-les Swyddfeydd y Cynulliad HC(2)-02-07(p9)<br><br>Trafododd y Pwyllgor bapur ar Benawdau'r Telerau ar gyfer is-les Comisiwn y Cynulliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lle yn Swyddfa'r Cynulliad. Nododd yr Aelodau fod y cynnig yn un ar gyfer les dros gyfnod sylweddol ac na fyddai taliad uniongyrchol gan LlCC am hyn gan y byddai darpariaeth ar gyfer y costau hyn yn cael eu cynnwys yng Nghyllideb Comisiwn y Cynulliad.<br><br>Mynegwyd pryder am yr angen i sicrhau tegwch wrth ddyrannu'r ddarpariaeth parcio ceir rhwng staff y Comisiwn a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nodwyd hefyd y byddai hyn mae'n debyg yn tyfu'n fater o bwys tua diwedd 2007. Cytunodd y swyddogion i ddarparu papur ar y dewisiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf. [Gweithredu : Dianne Bevan]<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd gael yr hawl i weithredu ar eu rhan mewn trafodaethau pellach â'r Trefnydd gan adrodd yn ôl i Bwyllgor y Ty yn ei gyfarfod nesaf. [Gweithredu: Y Cadeirydd) |
| 2.10 | Mynediad y Cyfryngau at yr Aelodau yn y Cwrt HC(2)-02-07(p10)<br><br>Trafododd y Pwyllgor a oedd angen protocol ar gyfer y newyddiadurwyr sy'n cael mynediad i'r Cwrt. Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o newyddiadurwyr yn ymddwyn yn hollol briodol a daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen protocol ar hyn o bryd. |
| 2.11 | Cais i Estyn yr Amser ym mis Chwefror pan na fydd y Gwasanaeth TGCh ar gael HC(2)-02-07(p11)<br><br>Darparwyd manylion i'r Pwyllgor ynghylch newid arfaethedig i'r cyfnod cytunedig o darfu ar y gwasanaeth fydd yn digwydd ym mis Chwefror 2007. Nododd yr aelodau mai cais oedd hwn am newid unwaith yn unig, ac y digwyddai hyn yn lle'r tarfu ar y gwasanaeth a ddeuai fel rhan o'r drefn yn ystod y mis. Ar y sail hon y caniatawyd y cais. |
| **3** | **Eitemau i'w nodi** |

3.1 Yr Is-grwp TGCh HC(2)-02-07(p12)

Nododd yr aelodau gofnodion cyfarfod yr Is-grwp TGCh a gynhaliwyd ar 16 Ionawr.

3.2 Yr Is-grwp Adeiladau HC(2)-02-07(p13)

Nododd yr aelodau gofnodion cyfarfod yr Is-grwp Adeiladau a gynhaliwyd ar 9 Ionawr.
Trafodwyd y gwaith a wneir i gefnogi addysg a chroesawyd yr arwyddion y byddai’r hen
siambr yn parhau i fod ar gael i’r perwyl hwn i’r dyfodol. Sylwodd un Aelod mai da o
3.3 beth i bobl ifainc oedd cael profiad o ‘amgylchedd trafodaeth’. Cafwyd trafodaeth fer am
y taliadau sy’n gysylltiedig pan fydd yr Aelodau’n cynnal digwyddiadau ar safleoedd y
Cynulliad a phwysleisiodd yr Aelodau y dylai’r trefnwyr wybod am y rhain ymlaen llaw.

3.4 Adroddiad Misol AD HC(2)-02-07(p14)

Nododd yr aelodau’r adroddiad.

Dangosyddion yn erbyn Targedau HC(2)-02-07(p15)

3.5 Sylwodd yr Aelodau ar y niferoedd mawr o ymwelwyr sy’n parhau i ymweld â’r Senedd a’r niferoedd llai o lawer sy’n ymweld ag adeilad y Lanfa. Awgrymwyd y gallai lleoli’r siop yn y Senedd olygu cynnydd yn y gwerthiant ond nodwyd mai plant ysgol fyddai nifer fawr o’r ymwelwyr ac na fyddai ganddynt arian i’w wario yn y siop. Roedd papur yn cael; ei ddarparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn Cysgodol a deuid â hwnnw i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty. [Gweithredu: Gwen Parry]

3.6

Mynediad at Wybodaeth HC(2)-02-07(p16)

Nododd yr Aelodau’r adroddiad a’r diddordeb parhaus yn nhreuliau’r Aelodau. Codwyd
cwestiwn ynghylch anghysondeb ymddangosiadol parthed y gofyn sydd i’r Aelodau
**4** ddarparu derbynebau wrth hawlio lwfansau gwahanol a chytunodd y swyddogion y
byddent yn darparu papur ar hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf. [Gweithredu: Steve
O’Donoghue]

4.1

Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-02-07(p17)

4.2 Nododd yr Aelodau’r adroddiad. Roeddent yn croesawu’r digwyddiadau arfaethedig ar gyfer pobl ifainc ac yn gobeithio y byddai Aelodau’r Cynulliad yn cael eu hysbysu’n drylwyr yn eu cylch. [Gweithredu : Gwen E Parry]

**Unrhyw Fater Arall**

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Jane Hutt at lythyr ynghylch Rheoliadau fydd y cael eu gwneud o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a anfonwyd ganddi at y Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd fel Trefnydd Busnes y Cynulliad, a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant. Roedd y llythyr wedi'i gylchredeg drwy'r e- bost i'r Aelodau. Cefnogodd y Pwyllgor y cynnig.<br><br>Dywedodd y swyddogion y byddai angen gwneud rhywfaint o newidiadau i'r gysgodfa smygu er mwyn cydymffurfio â'r gwaharddiad rhag smygu mewn lleoedd caeedig sydd ar ddod. Byddai'r rhain yn cael eu gwneud oddi mewn i'r cyllidebau presennol. |
| | |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf a drefnwyd: 15 Mawrth 2007. Cadarnhaodd yr Aelodau y gellid bellach ganslo 1 Mawrth fel dyddiad amodol y cyfarfod.<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |